Tirweddau Cymru
Landscapes Wales

**Cyflwyniad**

Mae'r wyth Tirwedd Dynodedig (TD) yng Nghymru sydd wedi'u dynodi dan ddeddfwriaeth sylfaenol yn cydweithio mewn partneriaeth dan yr enw Tirweddau Cymru Landscapes Wales (TCLW). Mae gan ein TDau rôl allweddol i'w chwarae yn nyfodol amaethu yng Nghymru, mae eu dynodiad yn cydnabod eu gwerth fel tirweddau a'u cyfraniad at natur, diwylliant a threftadaeth. Mae ffurf ein Tirweddau Dynodedig yn parhau i gael ei ddylanwadu gan amaethwyr ac maent yn gyfrwng allweddol ar gyfer gweithredu ar yr argyfyngau natur a hinsawdd.

Mae system gymell gydnerth a chynaliadwy ar gyfer amaethu yn hollbwysig ar gyfer eu dyfodol. Bydd cydweddu â gwaith y tirweddau dynodedig yn cymell y sector amaeth ac yn sicrhau dulliau integredig a chydweithredol o weithio, sydd yn angenrheidiol er mwyn cyflawni ein dibenion a'n dyletswyddau.

Mae Llywodraeth Cymru (LlC) wedi datgan bod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (CFfC) yn gychwyn i raglen hirdymor i gefnogi ein diwydiant amaethyddol yng Nghymru. Er mwyn gwireddu hynny, rhaid i unrhyw gynllun newydd gael adnoddau digonol o safbwynt cyllid a staff, er mwyn cyflawni ar gyfer ffermwyr a rheoli tir nawr ac yn y dyfodol.

**Negeseuon allweddol**

- Mae Tirweddau Dynodedig wedi cael eu ffurfio gan ffermwyr a rheolwyr tir eraill ers cenedlaethau ac mae'r rhan fwyaf o'r tir o fewn ein tirweddau dynodedig yn parhau i gael ei amaethu.
- Amaethu ydy un o'r elfennau canolog sy'n cyfrannu at gymeriad ac ansawdd tirwedd.
- Mae Tirweddau Dynodedig wedi cydweithio gydag amaethwyr ers iddynt gael eu creu ac maent yn cynnal perthynas waith agos ac ymarferol gyda nhw.
- Mae datblygiad y CFfC yn rhoi cyfle i integreiddio dibenion Tirweddau Dynodedig gyda chymhellion ar gyfer arferion amaethu cadarnhaol.

- Mae angen meddwl ymhellach ynglŷn â'r gofyniad am 10% o orchudd coed a deall mwy am ddeiliadaeth tir a gwybodaeth bragmataidd ynglŷn â thyfu coed mewn systemau ac amgylcheddau amrywiol.
- O ystyried hanes llwyddiannus timau Tirweddau Dynodedig yn cydweithio ac yn hwyluso, mae'r potensial ar gyfer datblygu eu rôl yn darparu cefnogaeth i amaethyddiaeth yn sylweddol.
- Mae staff Tirweddau Dynodedig yn gallu hwyluso sgyrsiau lleol gyda ffermwyr a rheolwyr tir er mwyn cyd-greu gweledigaeth gadarn ar gyfer dyfodol bwyd ac amaethu.
- Byddai cynghorwyr arbenigol, wedi'u gwreiddio mewn Tirweddau Dynodedig, ond yn gweithio mewn partneriaeth drwy TCLW, yn hwyluso dull mwy cyson o ymgysylltu ag amaethwyr a rheolwyr tir.

Roeddem yn croesawu'r datganiad yn nogfen ymgynghori'r CFfC: "*Cymorth i wneud mwy dros Dirweddau Dynodedig. Bydd y gweithredoedd hyn yn rhai arbennig i'r fferm a'i chyffiniau ac yn gyson â nodweddion arbennig Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol neu Barc Cenedlaethol.*" Gwnaethom bwysleisio bod angen i'r CFfC fod yn gydnaws â *dibenion* AHNEau (Tirweddau Cenedlaethol bellach) a Pharciau Cenedlaethol, a sicrhau cysondeb ar yr un pryd ag amcanion polisi Llywodraeth Cymru ym meysydd cynllunio, cynllunio ar gyfer rheoli'r glannau a rheoli maetholion.

Dibenion Parciau Cenedlaethol ydy:

- Diogelu a gwella prydferthwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol eu hardaloedd

Yn ychwanegol

- Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddod i ddeall a mwynhau nodweddion arbennig parciau cenedlaethol

Wrth gyflawni'r dibenion hyn, mae gofyn hefyd i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol geisio meithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol yn y Parc Cenedlaethol.

Mae AHNEau (Tirweddau Cenedlaethol bellach) yn rhannu'r dibenion hyn o ran prydferthwch naturiol a deall a mwynhau'r tirweddau dynodedig. Mae Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac AHNEau yn ceisio meithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol drwy bartneriaethau effeithiol.

Roedd disgwyl y byddai'r CFfC yn dod â gwir newid i reolaeth y tir er mwyn cyflawni dyheadau nifer o gyrff a'r sector amaethyddol ei hun. Mae lleihad yn y gyllideb ar gyfer materion gwledig yn hynod siomedig, yn enwedig o ystyried effaith lluosogi economaidd cyllid a ddarperir i'n cymunedau gwledig (x7 ar gyfer gwaith cyfalaf cadwraeth yn un enghraifft).

Mae hyn yn tanseilio dyhead LlC i gyflawni o safbwynt polisïau cynaliadwy, strategaethau arloesol a chydymdrechion i liniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, colli bioamrywiaeth, cyflawni targedau 30x30, a mynd i'r afael â thlodi tanwydd a thlodi plant mewn cymunedau gwledig. Yn yr un modd â chynlluniau amaethyddol-amgylcheddol blaenorol yng Nghymru, y CFfC fydd 'y sioe fwyaf' o safbwynt helpu adferiad natur. Felly, dyma'r erfyn mwyaf sydd ar gael i Dirweddau Dynodedig a rhaid ei gynllunio felly gyda ffermwyr mewn golwg.

Mae adnoddau digonol ar gyfer y cynllun yn hanfodol os yw LlC i anrhydeddu ei chynllun i gychwyn a chynnal 'perthynas' gyda rheolwyr tir ac i fod yn fwy cynhwysol o safbwynt syniadau a phrofiad y bobl sy'n rheoli'r tir. Nid yw cynnydd Llywodraeth Cymru gyda chydgynllunio'r CFfC wedi adlewyrchu datblygiad perthynas o'r fath hyd yn hyn na datblygu syniadau a phrofiad y rhai sy'n rheoli'r tir yn ogystal ag ystyried llwyddiannau a methiannau amaethyddol-amgylcheddol y gorffennol. Gwyddom, er enghraifft, am gynlluniau llwyddiannus sy'n cael eu harwain yn lleol mewn mannau eraill, megis y cynllun yn Iwerddon - "The Burren Programme – *Farming for Conservation*."

Rydym yn argymell y byddai model cefnogi wedi'i seilio ar gynghorwyr yn lliniaru ac yn osgoi canlyniadau nas bwriedir ar y pryd yn ogystal â sicrhau'r canlyniadau buddiol gorau posib mewn modd nad yw'r CFfC presennol yn gallu ei wneud, byddai'r gallu ganddo i ennyn

cefnogaeth ychwanegol gan rwydweithiau lleol o arbenigwyr ac i ddiogelu a gwella hynodrwydd lleol.

Ymhlith bwriadau'r CFfC, mae gwella canlyniadau amgylcheddol ar ffermydd, a bydd hynny yn ei dro yn gwella ansawdd y cynnyrch. Bydd yr enillion hyn yn amrywio yng ngwahanol ranbarthau Cymru, ond mae un llinyn cyffredin, sef y cysylltiad rhwng bwyd o ansawdd da, dewisiadau bwyta pobl, cost ac argaeledd cynnyrch ffres a'r lefel isel o ddealltwriaeth o rôl amaethyddiaeth Cymru a'i chyfraniad at fywyd gwledig, economi a thirweddau Cymru.

Wrth i'r ymdrech i gyflawni sero-net o ran nwyon tŷ gwydr ddwysáu, mae gan Gymru gyfle i ailosod amaethu yng Nghymru fel datrysiad arwyddocaol yn hynny o beth ac o ran arferion bwyta iach, lles a synnwyr hunaniaeth pobl. Gall Gymru ailosod y gwaith o gynhyrchu cig coch ac o'i fwyta gan ei phobl yn nhermau llai o fewnbwn, gwell ansawdd a defnydd cynaliadwy o gynnyrch o well ansawdd. Tirweddau Dynodedig Cymru ydy'r lle *gorau* i arwain y gwaith hwn.

Rydyn ni, fel y mae pobl eraill, yn pryderu bod y gofyniad am 10% o orchudd coed yn darged mympwyol sydd wedi'i ddewis o ganlyniad i dargedau plannu LlC ac mae angen meddwl ymhellach a deall mwy am ddeiliadaeth tir a gwybodaeth bragmataidd ynglŷn â thyfu coed mewn systemau ac amgylcheddau amrywiol. Ar hyn o bryd, nid yw'r gofyniad yn cynnwys mesurau i ddiogelu rhag plannu amhriodol neu niweidiol gyda nifer o ganlyniadau nas bwriedir. Rydym wedi gweld hynny eisoes drwy Gynllun Creu Coetiroedd Glastir. Mae angen mesurau i ddiogelu rhag canlyniadau o'r fath, yn enwedig yn ein Tirweddau Dynodedig.

Rydym wedi awgrymu targed o ran canran sy'n cyfuno coetiroedd a chynefinoedd ar ddaliadau. Byddai hynny'n darparu ar gyfer tir ffrwythlon sydd wedi'i wella mewn tirweddau fel Pen Llŷn, Ynys Môn, Sir Benfro ac ardaloedd eraill sydd, mewn difrif, yn methu â derbyn 10% o orchudd coed beth bynnag fo'r newidiadau i ddefnydd y tir. Mewn rhannau o Sir Benfro ger yr arfordir, mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn derbyn gwrthwynebiadau gan

Gyfoeth Naturiol Cymru i gynlluniau plannu coed a gyflwynir i'r Awdurdod Cynllunio ar y sail nad oes gobaith y bydd y coed hyn yn goroesi mewn lleoliadau o'r fath.

Gallai defnyddio'r dull hwn gyda ffurfio cynefinoedd dros dro esgor ar well canlyniadau o ran bioamrywiaeth ac elfennau megis anifeiliaid di-asgwrn-cefn ac adar tir amaeth, a gallai fod yn fwy derbyniol i reolwyr tir.

Rydym yn argymell y dylai cynigion terfynol ar gyfer coetiroedd gael eu hasesu mewn Asesiad Effaith Integredig diwygiedig sy'n cynnwys yr egwyddorion ar gyfer Corff Arweiniad Amaethyddol Cymru, h.y. integreiddio, rhagofal, atal, cywiro yn y ffynhonnell, a bod y llygrwr yn talu.

Dull arall y gellir ei fabwysiadu ydy Budd Net o ran Bioamrywiaeth, byddai enillion net o 2-3% yn golygu y gellid targedu plannu o'r newydd ar lefel tirwedd, e.e. coed-cae, i gydweddu â'n cynefinoedd presennol mewn modd cydweddus yn hytrach na thorri cefn gwlad yn dameidiau gyda blociau o goetir digyswllt yn cael eu rheoli'n wael. Rydym yn argymell y dylid ystyried defnyddio graddfa linol ar gyfer taliadau a fyddai ar gael ar gyfran rheoli coetiroedd y taliad er mwyn ysgogi pobl i ddechrau plannu yn hytrach na'u dieithrio'n llwyr rhag y cysyniad. Rydym yn awgrymu y byddai'n well cael canran fechan o gynnydd yn y gorchudd coed gyda choed a gaiff eu lleoli a'u rheoli'n dda yn hytrach na chael prinder pobl i gymryd rhan, neu safleoedd a rhywogaethau nad oes llawer o feddwl wedi mynd iddynt ac nad ydynt yn cael eu cynnal wedyn.   Mae gan dimau'r Tirweddau Dynodedig brofiad gyda'r ffordd hon o weithio.

Rydym yn argymell bod angen ystyried mathau unigol o dirweddau wrth gyflwyno'r gofyniad hwn er mwyn osgoi canlyniadau niweidiol nas bwriedir. Byddai mewnbwn ynglŷn â thirweddau unigol yn helpu hefyd i amlygu cyfleoedd e.e. mae tirwedd draddodiadol Penrhyn Gŵyr yn fosaig ar raddfa fach a allai gynnig cryn dipyn o le ar gyfer plannu coed ar raddfa fach a gwrychoedd helaeth.  Mae ein hasesiadau o gymeriad tirweddau yn ein

galluogi i nodi ble bydd coetiroedd neu flaenoriaethau eraill yn helpu i wella'r dirwedd a natur.

Mae'r cynigion presennol yn codi pryderon ynglŷn â thegwch yr opsiwn ar gyfer eithriadau rhag plannu sydd ar gael yn y cynllun ar gyfer ffermwyr sy'n denantiaid, a allai orfodi perchen-feddianwyr i blannu, gyda chanlyniadau niweidiol ac effaith sylweddol ar werth asedau. Rydym yn bryderus y gallai gweithredoedd o'r fath fod yn anghydnaws ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o safbwynt bod yn deg. Mewn Tirweddau Dynodedig, gallai hynny danseilio cymeriad tirwedd, ac mae elfen ddiwylliannol i hynny hefyd.

Pryder pellach, ar gyfer ucheldiroedd, mewn perthynas â gofyniad i blannu coed ar 10% o'r tir fyddai dirywiad parhaus mewn pori gan wartheg yn yr ucheldiroedd. Gyda'r tir sydd wedi'i wella yn gyfyngedig, bydd yr angen i blannu rhagor o goed ar rai unedau yn lleihau eu potensial ar gyfer cynaeafu gan ychwanegu costau economaidd uwch ar gyfer cludo porthiant i mewn i system ymylol, a gallai hynny arwain at ddiwedd i'r arfer o bori gwartheg yn yr ucheldir - arfer sy'n hollbwysig fel pori cadwriaethol. Mae gwartheg yn gwella bioamrywiaeth drwy eu patrymau pori a byddai effeithiau ychwanegol hefyd ar systemau cefnogi megis marchnadoedd da byw ac ati.

Yn wyneb hyn, rydym yn argymell y dylai cynhyrchwyr cig eidion ymylol (Ardaloedd Dan Anfantais Fawr ac Ardaloedd Llai Ffafriol gynt) gael cefnogaeth ble bydd gwartheg sugno eidion yn cael eu cadw er mwyn gwella'r capasiti ar gyfer pori cadwriaethol a gwella amrywiaeth pori, yn enwedig ar gyfer y buchesi llai lle nad oes modd cael darbodion maint (<30 o wartheg). Rydym eisoes yn gweld buchesi'r ucheldir yn lleihau ar raddfa sy'n destun pryder mawr yn sgil colli taliadau cynefinoedd Glastir. Bydd aros i'r haenau opsiynol a chydweithredol ddod yn weithredol yn rhy hwyr i lawer. Gallai taliad cynhaliol sylfaenol ar gyfer cadw gwartheg sugno fod yn sail ar gyfer Camau Gweithredu Opsiynol pellach er mwyn gwella hyn gyda chamau i wella effeithlonrwydd ac ati.

Gallai pori cymysg gyda gwartheg hefyd ddarparu'r gofyniad/enillion bioamrywiaeth ar gyfer yr unedau hynny fydd yn cael trafferth gyda thargedau % cynefinoedd/gorchudd coed.

Gallai gorfodaeth i blannu coed arwain at blannu rhywogaethau a sbesimenau gwael mewn safleoedd gwael, cyfraddau methu uchel neu ddiffyg twf a thebygolrwydd uchel y bydd y coed a blennir yn cael eu dinistrio petai rheolau'r cynllun yn newid, a byddai hynny'n golygu bod cronfeydd cyhoeddus wedi'u gwastraffu.

Mae effeithiau negyddol posib hefyd ar dirwedd, archaeoleg a chadwraeth, gan ddibynnu ar y math o goed a blennir, y cynefin presennol a chymeriad y dirwedd.

Mae pryderon ynglŷn â diffyg sicrwydd o safbwynt tarddiad brodorol a lleol planhigion a diffyg terfynau ar gyfer elfennau conifferaidd/pinwydd y coed a blennir, a byddai hynny'n arbennig o bwysig i ardaloedd ucheldir yn ein Tirweddau Dynodedig ble mae'r rhan fwyaf o'r ardaloedd yn sensitif i gynyddu'r asid yn y pridd ac effaith hynny ar gyrsiau dŵr.

Rydym yn cynghori y gall fod angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer plannu coed ac o bosib, Asesiad Rheoliadau Cynefin, gyda'r ddau yn cynnwys eu hystyriaethau eu hunain a rhai cyfun. Ble caiff gweithrediadau ychwanegol eu cynnwys, er enghraifft adeiladu lonydd ffermydd / coedwigoedd dan hawliau datblygu a ganiateir, bydd angen hysbysu'r awdurdod cynllunio lleol ymlaen llaw ynglŷn â'r rhain, felly bydd angen iddynt fod yn gydnaws â pholisïau Cynlluniau Datblygu Lleol.

Dylai plannu mewn Tirweddau Dynodedig ddigwydd yn dilyn ymgynghori gyda thimau'r TDau, gyda setiau data wedi'u mireinio yn cynnwys canllawiau lleol, gyda chefnogaeth asesiad o'r effaith weledol, asesiad archaeolegol ac asesiadau o'r effeithiau ecolegol. Gallai peidio â gwneud hynny arwain at blannu mewn modd amhriodol mewn ardaloedd neu flociau sylweddol mewn ardaloedd sensitif. Bydd ymgynghori o'r fath yn helpu i glustogi

safleoedd lle mae goblygiadau arwyddocaol o safbwynt y dirwedd neu'r forwedd neu effeithiau ar gynefin neu amgylchedd hanesyddol. Byddai data synhwyraidd Cyfoeth Naturiol Cymru yn allweddol wrth ystyried, yn ogystal ag asesiadau cymeriad tirwedd y Tirweddau Dynodedig eu hunain, gan ychwanegu eto at y farn y dylai'r nod gael ei osod fel Gweithred Opsiynol.

Mae'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau (y ddyletswydd Adran 6) a amlinellir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth i'r graddau y mae hynny'n gyson â chyflawni eu swyddogaethau yn gywir, ac o wneud hynny, byddant yn hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau.  Mae gennym bryderon na fydd yr Adolygiad Cynefinoedd yn llwyddo i nodi cynefinoedd blaenoriaeth Adran 7 (Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016) yn y model hunanwasanaeth arfaethedig, ac y bydd hynny'n arwain at blannu mewn cynefinoedd eraill sydd â gwerth uchel.  Rydym yn argymell ble mae fferm eisoes yn cynnal mwy na 10% o gynefin, bod hynny'n cael ei wobrwyo gan y CFfC er mwyn osgoi canlyniadau gwrthnysig megis bod diffyg gorchudd coed yn arwain at blannu mewn cynefinoedd eraill, gyda'r canlyniad bod colled gyffredinol o ran amrywiaeth cynefinoedd.  Mae amrywiaeth yn un o egwyddorion Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Mae Adran 7 y Ddeddf honno hefyd yn rhestru'r rhywogaethau pwysicaf at ddiben cynnal a gwella bioamrywiaeth mewn perthynas â Chymru. Mae'r rhestr o rywogaethau yn cynnwys 17 o famaliaid, 51 o adar, 8 o ymlusgiaid, 188 o anifeiliaid di-asgwrn-cefn a 77 o blanhigion fasgwlaidd ond nid yw'r cynllun wedi ystyried y rhain o gwbl.
Mae gan y rhywogaethau hyn amrywiaeth eang o anghenion o ran cynefin ac nid oes modd eu cynnal ar gynefinoedd 'ansawdd uchel' neu Gynefinoedd Blaenoriaeth yn unig; maent yn dibynnu yn hytrach ar fosaig o gynefinoedd Blaenoriaeth ac 'ansawdd is' yn ogystal â nodweddion tirwedd eraill.

Beth bynnag am ein sylwadau blaenorol, bydd pwysau'r cynllun (cyfrif coed ddwywaith fel cynefin a gorchudd coed) yn llywio ffermwr tuag at leihau cynefinoedd sy'n addas ar gyfer

casgliad helaeth o rywogaethau Adran 7, h.y. gallech ddweud bod colled yn cael ei rhagweld yma.

Nid yw'r effaith hon yn cael ei chydnabod na'i hasesu na'i lliniaru yn yr Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth felly mae'n anodd gweld sut y byddai LlC yn cyflawni ei dyletswydd dan y Ddeddf hon, heb sôn am y dyletswyddau newydd sydd i'w cyflwyno dan y Corff Llywodraethiant Amgylcheddol.

Rydym yn argymell y dylid defnyddio mapio rhwydweithiau natur, a phecynnau mapio Rhwydweithiau Ecolegol Blaenoriaeth a Rhwydweithiau Ecolegol Cydnerth a ddatblygwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru i helpu i roi cyngor i ffermwyr wrth iddynt ddatblygu cynigion ar gyfer y gweithredoedd opsiynol a chydweithredol.

Rydym yn argymell y dylid cefnogi opsiynau eraill ar gyfer 'arbed' carbon, gan gynnwys ynni adnewyddadwy ar raddfa fach, treulyddion anaerobig, cynaeafu cnydau ynni (e.e. Rhedyn, *Molinia*) ac adfer mawn.

Mae TCLW o'r farn bod cryn botensial mewn cynhyrchu ynni adnewyddadwy fel rhan o'r haen Gweithredoedd Cyffredinol, yn enwedig ar gyfer y daliadau hynny fydd yn cael anhawster i gyflawni 10% o orchudd coed.

Mae cryn botensial i gelloedd ffotofoltaig ar adeiladau presennol:

- Gostyngiadau carbon ar unwaith
- Ychydig o oblygiadau o ran tirwedd (mae'r adeiladau yno eisoes),
- Mae'r broses datblygiadau a ganiateir eisoes yn ei lle.
- Mae'n datblygu diwydiant gwyrdd yn y Gymru wledig.
- Mae'n paratoi Cymru ar gyfer dyfodol heb danwydd ffosil ac mae'n gallu ysgogi rhwydweithiau ynni lleol.

- Mae'n gwthio rheoleiddwyr i dynnu "llwythi sombïaidd" o'r rhwydwaith (ceisiadau heb eu datblygu sydd wedi "archebu" capasiti ar y rhwydwaith).
- Dim goblygiadau i gynefinoedd.
- Mae'n lleihau tlodi tanwydd a thlodi plant
- Mae ar gael i'r rhan fwyaf o ffermydd perchen-feddianwyr a ffermydd tenantiaid.

**Datblygu'r Cynllun ymhellach**

1. Rheoli a gwella cynefinoedd drwy weithredoedd penodol ar gyfer safleoedd yn ychwanegol at yr haen Gyffredinol. Mae gan hyn y potensial i dynnu llawer o'r opsiynau eraill a gynigir i mewn, megis ardaloedd dyfrol a phlannu coed ar dir cynefinoedd, adeileddau ac arferion naturiol i reoli llifogydd, ac hefyd, trin coed er mwyn amrywio canopïau coed ar lannau afonydd (er mwyn i rywogaethau dyfrol fanteisio ar olau pytiog), terfynau naturiol buddiol (mae gwrychoedd, cloddiau gwyrdd, waliau cerrig sych, a ffensys llechi yn gartrefi pwysig i rywogaethau arloesol ac yn cynnig cysgod i fywyd gwyllt a da byw), annog diogelu a helaethu coedwigoedd glaw Celtaidd (gallai hynny olygu cael gwared ar rywogaethau goresgynnol/problemus megis *Rhododendron ponticum* a pharatoi'r tir ar gyfer helaethu), cynlluniau pori wedi'u teilwra ar gyfer tiroedd comin gan gynnwys hwyluso, atal a rheoli tanau, a llawer mwy.

2. Tywyllu'r awyr. Mae effaith llygredd golau ar natur a phobl wedi'i ddiystyru i raddau helaeth mewn polisïau ond mae cofnod cynyddol o hynny yn y lenyddiaeth wyddonol. Dylid cefnogi cyfnewid gwybodaeth a gosod/ôl-osod goleuadau addas fel blaenoriaeth (mae potensial i leihau'r defnydd o ynni hefyd).

3. Cefnogi rhywogaethau brodorol i'r Deyrnas Unedig sydd dan risg (gwartheg, defaid, ceffylau) a dod i ddeall eu hymddygiad yn well a'r adnodd genetig y maen nhw a chnydau treftadaeth yn ei gynnig allai'n helpu i ddelio â heriau.

4. Cefnogi gwaith rheoli/gwaredu rhywogaethau estron goresgynnol a rhywogaethau problemus eraill.

5. Rhoi arweiniad a chefnogaeth ar gyfer defnyddio deunyddiau naturiol mewn pridd megis compostau ffyngaidd a bio-olosg.

6. Annog datblygiad a'r defnydd o dechnolegau mesur a monitro a anelir at gylchedau naturiol (carbon, nitrogen, dŵr).

7. Cynorthwyo'r rhai sy'n rhan o'r cynllun gyda datgarboneiddio gweithgareddau ffermio i gynnwys cynhyrchu ynni adnewyddadwy ac ynni a gynhyrchir drwy ddefnyddio 'gwastraff' (treulio anaerobig, gwres a gynhyrchir o wastraff pren, cynhyrchu bio-olosg ac ati) gan annog economïau cylchol sy'n seiliedig ar faetholion ac ynni ar lefel fferm/lleol.

8. Sefydlu neu addasu opsiynau sy'n helpu pobl i ymgysylltu â'r amgylchedd naturiol a chael mynediad ato. Cynnwys llwybrau wedi'u blaenoriaethu'n strategol er mwyn galluogi defnydd helaethach a gwell dehongli ar y cyffiniau, wedi'u hintegreiddio â'r rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus.

9. Uwchraddio Hawliau Tramwy Cyhoeddus presennol a sefydlu mynediad o'r newydd mewn modd sy'n gydnaws â Safonau Prydeinig ac mewn ymgynghoriad â'r awdurdod Hawliau Tramwy statudol, ynghyd â mynediad strategol at ddŵr, nofio dŵr agored, canŵio ac ati, yn cael eu datblygu mewn modd strategol a chydweithredol gyda rheolaethau a phrotocolau digonol, gyda dyfeisiau mesur llif, mannau mynediad ac ymadael gyda mesurau bioddiogelwch ac ati a galluogi ffermwyr i elwa'n ariannol am ddarparu'r mynediad hwn.

10. Cefnogaeth i ddarparu mwy ar gyfer tirweddau gwarchodedig mewn modd sy'n gydnaws â nodweddion tirwedd pob ardal.

11. Defnyddio cynlluniau llysgenhadon presennol megis Cynlluniau Llysgenhadon Bannau Brycheiniog ac Eryri fel rhan o'r cynnig Datblygu Proffesiynol Parhaus.